**CYNGOR BRO MACHNO**

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 17eg o Ionawr 2019 yn Festri Salem am 7.30

**Presennol:** Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Colin Jones, Eifion Davies, Dewi Jones, Siân Anwyl Jones, Eryl Owain, Lyn McFadden, Geraint Thomas a'r clerc, Elfed Williams.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Claire Roberts, a'r Cynghorydd Sir, Wyn Ellis Jones.

**Cofnodion:** Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 8fed o Dachwedd 2018 fel rhai cywir, Eifion Davies yn cynnig a Colin Jones yn eilio.

**Materion yn codi:**

**Ffordd Hafod-y-rhedwydd:** Derbyniwyd adroddiadau fod lorîau trymion yn dal i ddefnyddio'r ffordd felly penderfynwyd cysylltu eto â Chyfoeth Naturiol Cymru.

**Cyfoeth Naturiol Cymru:** Cafwyd adroddiad o gyfarfod rhwng CNC a Dafydd Gwyndaf, Eryl Owain a'r clerc i drafod y llain o dir coedwigaeth ger Stablau Bryncrug. Bydd CNC yn paratoi cytundeb rheoli tir felly penderfynwyd aros tan y derbynir y cytundeb cyn penderfynu os fydd y cynnig yn cael ei dderbyn.

**Ffyrdd:** Dim gwybodaeth am y cais i gyflwyno gwaharddiad parcio 20 milltir yr awr ger yr ysgol. Penderfynwyd cysylltu eto â'r Cyngor Sir.

**Plac enillwyr Cystadleuaeth Pentref y Flwyddyn** – Penderfynwyd gofyn i Guto Williams wneud ffrâm ar gyfer y llun o'r plac ar gyfer Canolfan Shiloh a derbyniwyd cynnig Geraint Thomas i osod y plac ar y *Green*. Diolchwyd i Geraint am drwsio'r hysbysfwrdd.

**Y Clerc** – Cafwyd adroddiad o gyfarfod rhwng Dafydd Gwyndaf ac Eryl Owain efo Trystan Edwards a Dewi Davies o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ynglŷn â sylwadau honedig a wnaed gan DD am y clerc. Roedd DD yn gwadu ei fod wedi cyhuddo'r clerc o ddylanwadu ar farn y Cyngor Cymuned parthed ffarm Carrog.

**Mynwent yr Eglwys:** Nid oedd prisiau ar gyfer gwaith tacluso wedi eu derbyn.

**Mynwent Arwelfa:** Cadarnhaodd y clerc bod arwydd newydd yn cael ei wneud.

**Llwybr Blaen-cwm:** Cadarnhawyd bod y gwaith ar lwybr Blaen Cwm wedi ei gwblhau'n foddhaol.

**Materion Ariannol:** Cafwyd Adroddiad Ariannol gan y clerc, gan gynnwys amcangyfrif o wariant am y flwyddyn i ddod; torri gwair yn y mynwentydd £1500, cynnal a chadw llwybrau £600 i £700, cyflog a chostau'r clerc £850 - £880, yswiriant £250 - £300, llogi ystafell bwyllgor £150, toiledau £500, costau cyfrifydd ac archwilio £450, Eisteddfod Genedlaethol £750. Wedi trafodaeth fanwl, penderfynwyd cadw'r praesept yn £5000.

Penderfynwyd o blaid cynnig gan Siân Anwyl wedi ei eilio gan Dewi Jones fod y cyngor yn gwahodd ceisiadau gan fudiadau lleol am roddion ariannol, gan gynnwys hysbyseb yn *Yr Odyn*.

**Materion eraill:**

**Llythyr gan *Beics Betws*:** Penerfynwyd nodi'r cynnwys oedd yn disgrifio cyfraniad beicio mynydd i'r economi lleol.

**Menter Bro Machno:** Gan nad oes sôn bod y fenter yn weithredol yn ddiweddar, penderfynwyd ceisio mwy o wybodaeth.

**Agor Siop:** Cafwyd wybod fod gŵr busnes lleol yn awyddus i agor siop ym Mhenmachno a'i fod yn awyddus i gyfarfod y cyngor cymuned, Penderfynwyd derbyn y cynnig.

**Ymddiswyddo:** Cyhoeddodd Siân Anwyl ei bod yn fodlon ymddiswyddo gan ei bod wedi symud i fyw o'r ardal. Diolchwyd i Siân am ei chyfraniad gwerthfawr ers iddi ddod yn aelod a nodwyd nad oedd rhaid iddi ymddiswyddo. Cytunodd i barhau ond y byddai'n barod i ymddiswyddo pe byddai eraill â diddordeb yn y swydd.